# Rhowch Nerth i'r Blodau Hynod

Os ydych chi mewn dinas, tref neu gefn gwlad, rhowch eich peiriant torri lawnt i gadw a gadael i flodau gwyllt flodeuo'n rhydd ar eich lawnt. Gan ddechrau ym mis Mai eleni, rhowch nerth i'r blodau hynod.

Mae tua 97% o ddolydd llawn blodau wedi cael eu colli ers y 1930au. Gyda nhw, mae bwyd hanfodol sydd ei angen ar bryfed peillio fel gwenyn a glöynnod byw wedi mynd. Mae gadael cymysgedd o laswellt o wahanol hyd ar eich lawnt fel rhan o #MaiDiDor a thu hwnt yn golygu eich bod chi'n rhoi'r hwb mae'n ei haeddu i fyd natur.

Gyda mwy na 23 miliwn o erddi yn y DU, mae hyd yn oed y darnau lleiaf o laswellt yn gallu gwneud gwahaniaeth. Fe allwch chi helpu i ddarparu'r bwyd hanfodol sydd ei angen ar wenyn a glöynnod byw a chysylltu â byd natur ar garreg eich drws.

**Ymunwch â mudiad Mai Di Dor yn plantlife.org.uk/nomowmay**

MAI DI DOR

Plantlife